***Statws*** *This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.*

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2000 No. 1075

# Gorchymyn Pysgota Môr (Gorfodi Mesurau Rheoli'r Gymuned) (Cymru) 2000

**Darpariaethau ynglŷn â thramgwyddau ac achosion**

**11.**—(1) Pan brofir bod unrhyw dramgwydd o dan Erthygl 3 o'r Gorchymyn hwn wedi'i gyflawni gan gorff corfforedig â chydsyniad neu gymeradwyaeth cyfarwyddydd, rheolydd, ysgrifennydd neu swyddog cyffelyb o'r corff corfforedig, neu y gellir ei briodoli i fethiant person o'r fath, bydd, yn ogystal â'r corff corfforedig, yn euog o dramgwydd ac felly yn agored i achos a chosb yn unol â hynny.

(2) Pan brofir bod unrhyw dramgwydd o dan Erthygl 3 o'r Gorchymyn hwn wedi'i gyflawni gan bartneriaeth gyda chydsyniad neu gymeradwyaeth partner, neu y gellir ei briodoli i fethiant partner, bydd, yn ogystal â'r bartneriaeth yn euog o dramgwydd ac felly yn agored i achos a chosb yn unol â hynny.

(3) Pan brofir bod unrhyw dramgwydd o dan Erthygl 3 o'r Gorchymyn hwn wedi'i gyflawni gan gymdeithas anghorfforedig (ac eithrio partneriaeth) gyda chydsyniad neu oddefiad swyddog o'r gymdeithas neu aelod o'i chorff llywodraethu neu y gellir ei briodoli i fethiant person o'r fath, bydd, yn ogystal a'r gymdeithas anghorfforedig, yn euog o dramgwydd ac felly yn agored i achos a chosb.